CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**03.10.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) TAJ; AR; GW, JAJ; DAW;EY;RY<br>**Ymddiheuriadau:** LLMH; IW; GW;EO;JOJ<br>**Mynychu:** Cyng Jackie Lewis; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. Cafwyd trafodaeth fer am faterion yr Heddlu gyda Iona Beckmann ein PCSO – diolchwyd iddi am fynychu'r cyfarfod. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd Cyng JL ddiddordeb mewn trafodaethau am Gynllunio CSYM ac Menter Môn. DAW mewn unrhyw drafodaethau am Cwmni Eiddo Cyf. |
| | **Cyflwyniad Môn Actif – Gwenno Pritchard**<br>Croesawyd Gwenno Pritchard i'r cyfarfod i egluro am brosiect Môn Actif. Dywedodd bod Llannerchymedd wedi ei glustnodi yn ardal i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i hyrwyddo iechyd a lles. Cyfeiriodd yn benodol at ddwy ymgyrch, sef, sefydlu Llwybr Llesiant a Chwarae Stryd. Byddai creu Llwybr Llesiant yn fodd o hwyluso cerdded i bob oed. Mae Chwarae Stryd yn golygu cau un stryd yn y pentref i draffig er mwyn hwyluso plant i gael chwarae'n fwy diogel. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd<br>• I'r Aelodau adnabod llwybrau cyhoeddus posib yn yr ardal ac anfon at Gwenno ar fap priodol. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • · Mai Stryd Bach fyddai mwyaf addas i'r prosiect Chwarae Stryd gan y gellid cau hon heb amharu'n ormodol ar drigolion y pentref na'r system unffordd heibio'r Ysgol. |
| 3 | **Cofnodion 05.09.24**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 05.09.24 fel rhai cywir (TAJ/JAJ)<br><br>**Materion yn Codi**<br>• **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** dim diweddariad i law. Cytunwyd i ychwanegu'r canlynol:-<br>*Arwydd 20mya ger y Felin angen ei droi eto<br>*Beth yw'r pollisi gyda torri gwrychyn o gwmaps arwyddion ffyrdd<br>*Oes modd rhoi arwydd ~~20mya~~ 30mya ary ffordd ger troeon Coedana/ Manceinion a Bryn Hwfa<br>*Drych ger Allt Stesion yn cael ei droi yn barhaus<br>*Ailadrodd am y materion parcio pryderus ac anghyfreithlon led led y pentref<br><br>• **Cyfarfod Menter Môn** – yn dilyn cyfarfod rhithiol ar 17.09.24 am 6pm lle roedd RJ;EO;DAW a'r Clerc yn bresennol fe nodwyd y canlynol, Nid oedd yr Ymgynghorydd Busnes yn argymell dechrau cwmni annibynnol newydd ac y byddai'r Cyngor Cymdeithas yn gadael ei hun yn agored i broblemau posib wrth drosglwyddo unrhyw o'i asedau., Cytunwyd i weithio ar gryfhau y dealltwriaeth rhwng Crofeydd Ysgol Haearn; Cae Gofeb a CC Llan. Cytunwyd i AR/TAJ/JAJ gyfarfod i symud hyn ymlaen.<br><br>• **Cais Cynllunio Bryn Hafod –** Clerc wedi ail-anfon sylwadau blaenorol at yr Adran Cynllunio gan ychwanegu cais i wybod maint y cabanau/gwelyau gosod a gostwng uchafswm gyrru mya. Swyddog wedi ymateb yn nodi union faint y gosodiadau ond dim gwybodaeth gan Priffyrdd. Dim gweithredu pellach.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn **– 03.10.24** |
| 5 | **Materion Trwy'r Gadair**<br>• Cais gan Apel yr Urdd Llan'medd<br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i CC LLan noddi cystadleuaeth am £200. O ran cyfraniad arall mae modd trwy CAMU sef y broses o gyfrannu £20 am 20 mis. Cytunwyd i ail-edrych yn ystod mis Mawrtth 2025 ar ddiwedd ein blwyddyn ariannol. Clerc i ateb y Cadeirydd Apel a gweithredu ar noddi cystadleuaeth.<br>• Sul y Cofio - trefniadau mewn llaw fel â ganlyn:<br>RPO yn trefnu cau'r ffordd |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | DAW wedi gofyn i Gwyn Annwyl chwarae'r trwmped<br>Pennaeth wedi cytuno i blant ysgol fod yn rhan eto<br>Clerc i holi Parch V Prydderch a Parch Deb Stammers<br>Clerc i holi Tegwen am baned wedi'r gwasanaeth ger y Gofeb<br>• Coeden 'Dolig – RPO yn trefnu. Apel yr Urdd yn gofyn am gael cynnal gweithgaredd i gyd fynd a goleuo'r goeden – cytunwyd.<br>• Baw ci Mynwent Carmel – cwyn i law'r Clerc. Cytunwyd i osod bocs dal bagiau baw ci ac arwydd Dim Cwn ger y Fynwent<br>• Caru Llan – cafwyd diweddariad ar eu gweithgareddau. Nodwyd bod ceisiadau mewn llaw am grantiau perthnasol a bod £5K yn y gronfa. Diolchwyd iddynt am eu gwaith caled a chytunwyd i barhau i'w cefnogi.<br>• Paneli Solar – adroddwyd am gyfarfod diweddar yn yr Ysgol Gynradd wedi ei drefnu gan Plaid Cymru. Roedd y Neuadd dan ei sang. Er bod peth cefnogaeth i ynni solar amgen doedd dim cenfogaeth i'r datblygiadau Awel Mon ac Maen Hir oherwydd eu maint anferthol. Nodwyd bod cefnogaeth ar gael i roi arweiniad i Cynghorau Cymuned ar sut i ymateb i elfennau arbennigol fel ecoleg a thirlun. Clerc i holi mwy am y cymorth er mwyn cyflwyno ymateb CC Llan o fewn yr amserlen dyn iawn, sef 16 Hydref 2024. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 5.9.24**<br>• Cyflog Clerc – Medi = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Cwmni Bodorwedd – HWB £17292.38 ad-dalu gan Loteri<br>• Taliad Clwb Bowlio i CPD Iau £100<br>• Taliad Clwb Bowlio i CPD Hyn £100<br>• Benthyciad PWLB - £1483.70<br>• Bil tryda HWB MH/Gorff/Awst £165.70 – ad-daliad gan Loteri<br>• Bagiau dal baw ci – JRB Enterprises - £77.88<br><br>**Biliau cyfredol** — **£**<br>Dwr Cymru – Fynwent — 12.47<br>Dwr Cymru – CPD — 30.51<br>Dwr Cymru – Clwb Bowlio — 24.44<br>Dwr Cymru – HWB ad-daliad gan Loteri — 53.77<br>Anglesey Catering – trwsio ffriwr Caffi — 310.00 |



Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Cyfrif Cyfredol: £16582.54<br>Cyfrif Cadw: £24026.41<br>. |
| **7** | **Materion Cynllunio**<br><br>Dim i law |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** cadarnhawyd bod Llinos Medi AS yn parhau yn aelod o'r Cyngor Cymdeithas ac yn derbyn pob gohebiaeth fel erioed. |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel –** cyfeiriodd y Clerc at ebost gan Rhys Jones a gylchredwyd at bawb 23Medi 2024 yn egluro camau nesaf iddo lunio papur opsiynau. Penderfynwyd ymchwilio i ddatblygu 8 uned ar y llain tir a ffafrio cadw'r Unedau. Hyn yn ddibynol ar drafodaeth bellach ar y papur opsiynau. Bydd dyddiad cyfarfod arall gyda Rhys i'w drefnu a'i rannu mor fuan a phosib.<br><br>**Safle'r Stesion –**. Adroddodd y Clerc am broblem gyda 2 gyfarfpar yn y Caffi. Y peiriant ffrio mawr wedi chwythu a chwmni Anglesey Catering wedi ei drwsio am gost o £310. Yn anffodus fe chwythodd y peiriant bore ddoe a bu rhaid i'r Cadeirydd a'r Clerc gymryd camau i weithredu ar frys i gael peiriant newydd – cost £888.58. Mae problem hefyd gyda'r boeler ac mae'r Clerc yn gwirio os ydio dan warant, ond fe gytunwyd bod rhaid bwrw mlaen a'i drwsio.<br><br>Cyfeirwyd at fwriad Menter Môn i osod arwyddion gwybodaeth newydd ar y safle. Cytunodd y Clerc i holi os bydd ad-daliad costau hawl cynllunio. Clerc hefyd i holi am adnewyddu yr arwydd ger y polyn cyflenwad ceir trydan ar y safle.<br><br>**Lawnt Fowlio** – cytunodd RJ i wirio os oes biniau ar gael ger y Lawnt a all gael eu symud i'r Cae Astro. Clerc i holi Pennaeth yr ysgol am gymorth i'w wagio os yn briodol.<br><br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br><br>**Mynwentydd** – Clerc i holi am brisiau giatiau newydd.<br><br>**Cae Gofeb –** cadarnhau a derbyn pris Gareth Parry i baentio'r rheiliau cyn Sul y Cofio. |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br><br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd ar y Rhaglen - dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cygor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com